Plant y strydoedd

Dyfalbarhad / gwneud eich gorau

Thomas Barnardo: 1845-1905

Sawl pryd bwyd ydych chi'n ei gael bob dydd? Brecwast, cinio, te a swper? A beth am fwyta rhwng prydau? Creision, siocled, ffrwythau a phob math o bethau eraill. Meddyliwch am blant nad oedd yn cael dim bwyd o gwbl yn ystod y dydd. Roedd yn rhaid iddyn nhw chwilio am fwyd ar y stryd. Dyma stori am Thomas Barnardo a wnaeth gymaint i helpu'r plant oedd yn begera ar y strydoedd.

Roedd pob un o'r plant wedi mynd adref o'r ysgol. Roedd Thomas Barnardo yn barod i gloi'r adeilad pan welodd fachgen wrth ymyl y tân.

"Tyrd rŵan, fachgen, mae'n amser i ti fynd adref," meddai Barnardo yn chwyrn wrth y bachgen.

"Does gen i ddim cartref," meddai'r bachgen, "ar y stryd rydw i'n byw efo bechgyn eraill."

Sylwodd Barnardo nad oedd wedi gweld y bachgen hwn o'r blaen yn yr ysgol.

"Ers pa bryd wyt ti wedi bod yn yr ysgol?" gofynnodd Barnardo.

"Dim ond heddiw. Fe ddywedodd un o'r bechgyn ar y stryd bod yna dân yma a siawns i gael rhywbeth i'w fwyta," meddai'r bachgen.

"Faint ydi dy oed di?" gofynnodd Barnardo.

"Deg oed syr," meddai yntau.

"Roedd Barnardo wedi dychryn. Roedd yn fychan ac yn eiddil ond eto roedd ei wyneb yn edrych fel wyneb hen ŵr. Tosturiodd Barnardo wrtho.

"Wyt ti'n siŵr nad oes gen ti gartref i fynd iddo?"

"Nac oes" oedd yr ateb y tro hwn eto.

"Fuasech chi'n hoffi gweld lle rydw i'n byw, syr?" gofynnodd y bachgen bach i Barnardo.

Wnaeth Barnardo ddim ateb y cwestiwn, dim ond cerdded tua'r drws a'r bachgen tu ôl iddo. I lawr y stryd yr aethon nhw i gyfeiriad hen adeilad ym mhen arall y stryd. Roedd hi'n noson oer a gwynt y dwyrain yn chwythu'n fain wrth i'r ddau fynd i gyfeiriad yr adeilad.

"Mae yna ddrws fan'ma," meddai'r bachgen. Camodd y ddau i'r adeilad. Roedd hi'n dywyll fel y fagddu yno. Clywodd y ddau sŵn sgrialu ym mhen draw'r adeilad.

"Mae yna lygod mawr yma," meddai Barnardo wrth y bachgen.

"Na," meddai yntau, "y plant sydd yma, maen nhw wedi dychryn."

Gwaeddodd un o'r plant o'r tywyllwch, "Jim, ti sydd yna? Pwy sydd efo ti?"

"Athro o'r ysgol," meddai yntau.

Erbyn hyn roedd y lleuad wedi codi. Trwy'r tyllau yn nho'r adeilad roedd golau'r lleuad yn llewyrchu ar y plant oedd yn gorwedd ar y llawr. Dechreuodd Barnardo grynu. Nid crynu o oerfel roedd o, ond crynu am ei fod wedi dychryn. Doedd o erioed wedi gweld y fath beth yn ei fywyd. Oedd, roedd y bachgen, Jim Jarvis, wedi agor llygaid Thomas Barnardo. O hynny ymlaen, penderfynodd Barnardo roi ei holl egni i helpu plant y strydoedd.

"Oherwydd bûm yn newynog a rhoesoch fwyd i mi, bûm yn sychedig a rhoesoch ddiod i mi."

Mathew 25:35

O Dduw,
mae cyfnod Barnardo
yn dal i fod efo ni.
Mae yna bobl yn dal i gysgu ar y strydoedd;
mae yna blant a phobl ifanc yn dal i gysgu ar y strydoedd.
Helpa bawb
i roi help llaw iddyn nhw,
yn enwedig yn ystod y tywydd oer.
Amen.

Pam fod pobl yn dal i fyw ar y strydoedd?
Ar bwy mae'r bai?
Beth fedrwn ni wneud i'w helpu?